

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cynllun Pensiwn yr Aelodau

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

1 Ebrill 2013 i 31 Mawrth 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cynllun Pensiwn yr Aelodau

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

1 Ebrill 2013 i 31 Mawrth 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynnwys

Rhif y Dudalen

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y CYFNOD A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2014 I AELODAU CYNLLUN PENSIWN AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU	1
YR ADRODDIAD BUDDSODDI	9
DATGANIAD YR ACTWARI	15
DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR	18
DATGANIAD O GYFRANIADAU	19
DATGANIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU YNGLŶN Â CHYFRANIADAU	20
DATGANIAD LLYWODRAETHU	21
TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU	25
CYFRIFON Y CYNLLUN PENSIWN	27
NODIADAU I GYD-FYND Â'R CYFRIFON	29
DATGANIAD CYDYMFFURFIO	35

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y CYFNOD A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2014 I AELODAU CYNLLUN PENSIWN AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Cefndir Deddfwriaethol i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynllun”)

Sefydlwyd y Cynllun o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Adran 20 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi dilyniant i'r Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Datblygiadau yn ystod y flwyddyn

Mae Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Bwrdd”) yn gyfrifol am bennu cyflogau, lwfansau a phensiynau Aelodau'r Cynulliad. Mae adolygiad y Bwrdd o bensiynau'r Aelodau yn parhau a chyhoeddodd ei "Ymgynghoriad ar drefniadau pensiwn yn y dyfodol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ym mis Ebrill 2014.

Mae'r Ymddiriedolwyr a'u cynghorwyr proffesiynol wedi bod mewn cysylltiad â'r Bwrdd drwy gydol y flwyddyn a byddant yn parhau i wneud hynny drwy gydol yr adolygiad.

Ni fu unrhyw newidiadau i'r rheolau yn ystod y flwyddyn.

Ymddiswyddodd Mr Wayne Cowley fel Ysgrifennydd y Cynllun ar 13 Mawrth 2014, a chadarnhaodd yn ei lythyr ymddiswyddo nad oedd yn ymwybodol o unrhyw amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'i ymddiswyddiad a oedd yn effeithio'n sylweddol ar fuddiannau aelodau'r Cynllun. Cadarnhaodd hefyd nad oedd wedi gwneud unrhyw adroddiadau i'r Rheoleiddiwr Pensiynau, ac nad oedd yn ymwybodol o unrhyw adroddiadau i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

Derbyniwyd ei ymddiswyddiad gan yr Ymddiriedolwyr yn eu cyfarfod ar 24 Mawrth 2014, a phenodwyd Nicola Callow yn Ysgrifennydd y Cynllun.

Nod yr Adroddiad

Mae'r Cynllun wedi'i eithrio o'r gofyniad a nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon archwiliedig cyn pen saith mis ar ôl diwedd y flwyddyn gyfrifyddu. Bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ysbryd y ddeddfwriaeth hon trwy ddatgelu gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys manylion actiwaraid a chyfrifyddu, i bob aelod o'r Cynllun cyn pen 3 mis ar ôl ardystio'r cyfrifon archwiliedig yn unol ag Atodlen 1 paragraff 13 o Reolau'r Cynllun.

Yr Ymddiriedolwyr

Yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn ac ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol oedd:

William Graham AC (Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr)
David Melding AC
Jocelyn Davies AC
Mike Hedges AC
Peter Black AC
Gareth Jones (Ymddiriedolwr Bensiynwr)

Gweinyddu'r Cynllun

Ysgrifenyddiaeth y Cynllun sy'n gweithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd fel rhan o Wasanaethau Ariannol Comisiwn y Cynulliad.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am bensiynau neu gais am unrhyw wybodaeth ychwanegol at yr Ysgrifenyddiaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Gwasanaethau Ariannol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Nicola Callow - Ysgrifennydd y Cynllun (penodwyd ar 24 Mawrth, 2014 yn dilyn ymddiswyddiad cyn-Ysgrifennydd y Cynllun, Wayne Cowley)

Ffôn: 02920 898054 ac e-bost nicola.callow@cymru.gov.uk

Roger Beale - Ysgrifennydd Cynorthwyol y Cynllun

Ffôn: 02920898956 ac e-bost: roger.beale@cymru.gov.uk

Lisa Bowkett - Cyfrifydd Rheoli

Ffôn 02920 821951 ac e-bost lisa.bowkett@cymru.gov.uk

Liz Calder - Rheolwr Pensiynau

Ffôn: 02920 8980809 ac e-bost: liz.calder@cymru.gov.uk

Ffacs 02920898059

Incwm y Gronfa

Mae incwm y Gronfa yn deillio o'r ffynonellau a ganlyn; cyfraniadau gan aelodau gweithredol y Cynulliad a chan Gomisiwn y Cynulliad fel cyflogwr.

Mae Aelodau a Deiliaid Swyddi yn cyfrannu 10% o'u cyflogau os ydynt yn cronni buddion ar sail deugeinfed a 6% o'u cyflogau os ydynt yn cronni buddion ar sail hanner canfed. Mae Comisiwn y Cynulliad, fel y cyflogwr, yn cyfrannu 23.8% o gyflogau pensiynadwy at y cynllun sylfaenol a'r cynllun Deiliaid Swyddi. Mae'r cyfraddau hyn wedi bod mewn grym ers 1 Ebrill 2009 ac yn dilyn y pedwerydd prisiad tair blynedd ar 1 Ebrill 2011 byddant yn parhau tan 2014.

Prisiad yr Actiwari

Mae'n ofynnol i Actiwari'r Cynllun Iunio adroddiad ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Gronfa bob tair blynedd a gwneud argymhellion ar gyfradd cyfraniad Comisiwn y Cynulliad yn y dyfodol. Cwblhawyd y pedwerydd prisiad tair blynedd ar 1 Ebrill 2011 a gosodwyd yr adroddiad ar 4 Ebrill 2012, yn unol â rheolau'r Cynllun.

Roedd y datganiad gan yr Actiwari, dyddiedig 26 Mawrth 2012, yn argymhell cyfradd cyfrannu o 23.8% o gyflog pensiynadwy yr Aelodau gan ddechrau o 1 Ebrill 2012. Mae'r gyfradd hon yn cynrychioli'r swm sy'n ofynnol i dalu costau'r Cynllun er mwyn sicrhau y telir am fuddiannau a chyfraniadau'r Aelodau gan ystyried gwasanaeth presennol a gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae'r dystysgrif ddilynol, dyddiedig 6 Mai 2014, (tudalennau 15 i 17) yn cadarnhau bod cyfraniad Comisiwn y Cynulliad o 23.8% yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r lefel bresennol yn ddigonol i dalu am y buddiannau presennol. Mae'r datganiadau hyn yn seiliedig ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun ar y dyddiad prisio. Mae'r datganiadau hyn yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Nodyn Cyfarwyddyd GN9 y Sefydliad Actiwariadaid a'r Gyfadran Actiwariadaid.

Disgwylir y prisiad tair blynedd nesaf ar 1 Ebrill 2014.

Aelodaeth

Aelodau Gweithredol

Aelodau Gweithredol ar 1 Ebrill 2013 (60 Aelod Cynulliad a'r Cwnsler Cyffredinol. O'r 61 aelod mae 39 ohonynt yn Ddeiliaid Swyddi.)	61
<i>ynghyd ag:</i> Aelodau newydd yn ystod y flwyddyn	1
<i>llai:</i> Aelodau sydd wedi gadael yn ystod y flwyddyn	1
Aelodau sydd wedi ymddeol yn ystod y flwyddyn	0
Aelodau a fu farw yn y swydd	0
Aelodau Gweithredol ar 31 Mawrth 2014	61

Aelodau sy'n gohirio cymryd eu pensiwn

Aelodau sy'n gohirio cymryd eu pensiwn ar 1 Ebrill 2013	24
<i>ynghyd ag:</i> Aelodau a adawodd gan gadw'u hawl i ohirio cymryd eu pensiwn	0
<i>llai:</i> Aelodau a hawliodd eu pensiwn gohiriedig	2
Aelodau sy'n gohirio cymryd eu pensiwn ar 31 Mawrth 2014	22

Pensiynwyr sy'n derbyn tâl

Pensiynwyr a oedd yn derbyn tâl ar 1 Ebrill 2013	30
<i>ynghyd ag:</i> Aelodau sy'n ymddeol yn ystod y flwyddyn	3
<i>ynghyd ag:</i> Aelodau a hawliodd eu pensiwn gohiriedig	0
<i>ynghyd ag:</i> Aelodau sydd â dibynyddion newydd	0
<i>llai:</i> Aelodau a fu farw yn ystod y flwyddyn	0
Pensiynwyr a oedd yn derbyn Tâl ar 31 Mawrth 2014	33

Datgelir manylion y taliadau a wnaed o'r Cynllun yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 6 y cyfrifon Cynyddwyd pensiynau sy'n cael eu talu o 8 Ebrill 2013² ymlaen 2.2% yn unol â Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu) 2013.

Paratoi ac Archwilio'r Cyfrifon Blynyddol

Paratoir y cyfrifon yn unol â'r Datganiad Arferion a Argymhellir (SORP), Adroddiadau Ariannol Cynlluniau Pensiwn (diwygiwyd Mai 2007), cyn belled â bod hynny'n briodol.

Mae'r cyfrifon hyn yn cael eu paratoi, cyn belled ag y bo hynny'n briodol, gan swyddogion y Cynulliad, ar ran yr Ymddiriedolwyr, ac yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Maent yn cael eu paratoi a'u harchwilio o dan Adrannau 41 (1) a (6) o Ddeddf Pensiynau 1995 ac yn unol ag OS 1996/1975 Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i dderbyn Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd).

Bydd y cyfrifon archwiliedig yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad cyn pen 3 mis ar ôl llofnodi a chyhoeddi Datganiad yr Archwilydd.

Mae copïau o'r cyfrifon hyn ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth os gwneir cais amdanynt.

Crynodeb o'r Wybodaeth Ariannol

Yr incwm yn ystod y cyfnod oedd £1,407,073 (2012-2013 £1,413,635), a gwariant y Cynllun oedd £643,639 (2012-2013 £420,5907). Asedau net y Cynllun ar 31 Mawrth 2014 oedd £25,487,690 (31 Mawrth 2013 £23,961,960).

Yn ystod y cyfnod, rhoddwyd cyfanswm o £804,944 o fuddsoddiad newydd i Reolwyr y Gronfa i'w fuddsoddi yn y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol a Chronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford. Cyfanswm gwerth y Gronfa ar y farchnad ar 31 Mawrth 2014 oedd £25,030,609 (31 Mawrth 2013 £23,464,191).

Ar 31 Mawrth 2014, roedd cyfanswm o £350,509 (31 Mawrth 2013 £385,080) mewn cyfrif cadw y Trysorlys ac roedd banc y Cynllun yn ennill llog yn seiliedig ar gyfraddau'r farchnad ariannol ar y pryd Caiff yr arian hwn ei gadw at ddibenion hunanyswiro.

Buddsoddiadau

Mae'r holl fuddsoddiadau mewn daliannau a ganiateir gan reoliadau'r Cynllun ac na chânt eu gwahardd gan yr Ymddiriedolwyr.

Nid yw maint asedau'r Cynllun yn ddigon i ganiatáu portffolio llawn amrywiaeth o fuddsoddiadau pe bai'r asedau'n cael eu buddsoddi'n uniongyrchol mewn bondiau, stociau a chyfranddaliadau. Felly, nes i'r asedau dyfu'n ddigon mawr, cred yr Ymddiriedolwyr mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fuddsoddi gydag amrywiaeth addas ac am gost resymol yw defnyddio ymddiriedolaethau uned neu gwmnïau buddsoddi penagored.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i adenillion y buddsoddiadau fod yn ganolig neu'n well ar gyfer eu sector wrth eu mesur yn erbyn cronfeydd pensiynau cyfun tebyg. Disgwylir hefyd i adenillion y buddsoddiadau fod yn uwch na chwyddiant pris ac i'r gwahaniaeth rhwng y ddau fod yn ddigon i sicrhau y darperir ar gyfer buddiannau'r Cynllun yn unol â chyfrifiadau actiwaraid y Cynllun.

Polisi Buddsoddi

Yr Ymddiriedolwyr sy'n pennu Polisi'r Cynllun a bydd yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd. Nodir y polisi sydd mewn grym ar 31 Mawrth 2014 yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sydd wedi'i fabwysiadu gan yr Ymddiriedolwyr a gall Aelodau wneud cais i Ysgrifenyddiaeth y Cynllun i'w weld. Nid yw'r polisi'n caniatáu unrhyw fuddsoddiad cysylltiedig â'r cyflogwr.

Dyma'r amcanion perfformiad ar gyfer y cronfeydd buddsoddi:

Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford – perfformio 1.0 – 1.5% (gros) yn well bob blwyddyn na Chronfa Gronedig Ganolrif CAPS Gytbwys dros gyfnodau treigl o dair blynedd

Dros y pum mlynedd diwethaf bu cynnydd o 16.4% yng nghyfradd enillion blynyddol y Gronfa Bensiwn Reoledig yn erbyn perfformiad meincnod o 13.3%.

Cronfa Bensiwn Fyngrifol Baillie Gifford – i berfformio 1.5% (gros) yn well bob blwyddyn na'r enillion ar Fyngai Gilt Fyngrifol 5 mlynedd Actiwarau'r FT dros gyfnodau treigl o dair blynedd.

Dros y 5 mlynedd ddiwethaf nid yw'r Gronfa Bensiwn Fyngrifol wedi cyrraedd amcan perfformiad y meincnod gyda chyfradd enillion blynyddol o 8.7% yn erbyn perfformiad meincnod o 8.8%.

Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford – i berfformio 3.5% (gros) y flwyddyn yn well na chyfradd sylfaenol y DU (heb gynnwys ffioedd) dros gyfnodau treigl o bum mlynedd.

Dros y pum mlynedd diwethaf bu cynnydd o 13.3% yng nghyfradd enillion blynyddol y Gronfa Bensiwn Reoledig yn erbyn perfformiad meincnod o 4.0%.

Rheolwr Buddsoddi

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penodi Baillie Gifford Life Ltd fel Rheolwr y Gronfa ar gyfer y Cynllun ac mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb o reoli'r buddsoddiadau iddynt hwy.

Mae buddsoddiadau'n cael eu gwneud drwy bolisi pensiwn Baillie Gifford Life Ltd. Prif nodwedd y polisi yw bod y buddiannau a geir yn hollol ddibynnol ar berfformiad buddsoddi asedau'r Gronfa.

Telir ffi rheoli i Baillie Gifford Life Ltd ar sail canran o gyfanswm gwerth y gronfa ar y farchnad bob blwyddyn: 0.45% yng nghyswllt y Gronfa Bensiwn Reoledig a 0.25% yng nghyswllt y Gronfa Bensiwn Fynegrifol, a 0.65% yng nghyswllt y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol a gaiff ei ddiwynnu o werth y Gronfa bob mis.

Cost amcangyfrifol rheoli'r gronfa yn 2013-14 oedd £119,825 (2012-13 £104,289)

Mae'r holl asedau yn y cronfeydd mynegrifol sy'n cael eu gweithredu gan Baillie Gifford Life Ltd yn eiddo i gwmni yswiriant Baillie Gifford Life, a chânt eu cofrestru yn enw Baillie Gifford Life.

Nid oes gan y Cynllun geidwad gan ei fod yn buddsoddi mewn unedau mewn polisi bywyd nad oes angen ceidwad arno. Ceidwad Baillie Gifford Life Ltd yw Bank of New York, One Canada Square, LONDON, E14 5AL.

Mae Baillie Gifford yn cydnabod bod hawliau a chyfrifoldebau arbennig yn cyd-fynd â bod yn berchen ar gyfranddaliadau cwmni ar ran cleientiaid. Ar yr un pryd, mae materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant, a'r modd y caiff y materion hyn eu rheoli, yn rhan annatod o gynaliadwyedd busnes. Oherwydd hyn, mae Baillie Gifford yn ystyried materion o'r fath wrth ddadansoddi ac adolygu cwmni, ac mae Tîm Llywodraethu Corfforaethol penodol hefyd yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm â bod yn berchen ar gyfranddaliadau ar ran ein cleientiaid.

Mae eu hagwedd tuag at y materion cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n cyd-fynd â pherchnogaeth cyfranddaliadau'n seiliedig ar ymgysylltu a thrafod yn hytrach nag allgáu. Drwy ddefnyddio ymchwil mewnol ac allanol, maent wedi nodi materion allweddol yn ymwneud â chyfranddaliadau eu cleientiaid ac wedi'u trafod â'r cwmnïau dan sylw. Yn y modd hwn, maent yn annog cwmnïau i fonitro'r risgiau a'r cyfleoedd amgylcheddol a chymdeithasol perthnasol sy'n wynebu eu busnesau ac ymdrin â hwy. Maent yn credu y gall y broses hon gyfrannu at werth buddsoddiadau ein cleientiaid yn yr hirdymor.

Yn ogystal, y rhestr o gwmnïau y mae Baillie Gifford wedi ymgysylltu â hwy ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014 yw:


- **Llywodraethu Corfforaethol** - DIA, Exor Spa, Google Inc, Jyske Bank AS, Monsanto Company, O'Reilly Automotive, SMC Corp, Standard Chartered, eBay

- **Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol** - Atlas COPCO, Schindler Holding AG
- **Cydnabyddiaeth Gweithredol** - ARM Holdings, Aggreko, Apache Corporation, BG Group, BHP Billiton, British American Tobacco, Burberry Group, Cochlear, First Republic Bank Corp, Harley Davidson, Hiscox, IG Holdings Group, James Hardie, Jardine Lloyd Thompson Group, Johnson Matthey, Legal and General Group, Meggitt, Mettler Toledo International, Michael Page International, Prudential, Rakuten, Rightmove PLC, Ryanair Holdings PLC, SABMiller, Shoppings Centres Australasia, St James's Place, Standard Chartered, Weir Group, eBay
- **Cynigion CCB neu CCA** - ARM Holdings, Amlin, Apache Corporation, Ashtead Group, Bellway, British American Tobacco, Burford Capital, Colruyt, ETS Fr SA, DIA, Enquest, Facebook Inc, GBL Groupe Bruxelles Lambert SA, Geberit, Hargreaves Lansdown, Hiscox, IG Group Holdings, Inchcape, Johnson & Johnson, Jupiter Fund Management, Jyske Bank AS, Life Technologies, Markel Corp, Moody's Corp, O'Reilly Automotive, Prudential, Rio Tinto, Shopping Centres Australasia, Svenska Handelsbanken AB, TD Ameritrade Holding Corp, Treasury Wine Estates, US Bancorp, United Parcel Service, Victrex, Waters Corporation, Weir Group, Xilinx, eBay
- **Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol / CCA** - Eurazeo, L'Oreal
- **Cyfarfod Cyffredinol Arbennig** - Life Technologies

Mae adroddiad buddsoddi yn ymwneud â'r polisiâu buddsoddi yn ystod y flwyddyn ac adolygiad o berfformiad buddsoddiadau'r Gronfa yn ystod y flwyddyn, a natur, trefniadau a diogelwch yr asedau i'w gael ar dudalennu 9 i 14. Gwerth y Gronfa Reoledig ar y farchnad ar 31 Mawrth 2014 oedd £11,603,052, sef twf o £777,397 dros y flwyddyn; gwerth y Gronfa Bensiwn Fynegrifol ar y farchnad ar 31 Mawrth 2014 oedd £2,328,226, sef gostyngiad o £138,056; gwerth y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol ar y farchnad oedd £11,099,331, sef twf o £122,133. Caiff y gwerthoedd hyn eu datgelu yn Nodyn 8 sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon hyn.



William Graham
Aelod Cynulliad
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
 (ar ran yr Ymddiriedolwyr)
Dyddiad: 23 Mehefin 2014



Gareth Jones
Ymddiriedolwr

Adroddiad Buddsoddi — ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi paratoi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sy'n nodi eu polisiau buddsoddi a'u strategaeth ar gyfer eu cyflawni, ac mae copi ar gael ar gais.

Mae'r cyfrifoldeb o reoli buddsoddiadau o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i Baillie Gifford Life Limited, sy'n gweithredu yn unol â chanllawiau a chyfyngiadau a nodir yn y Cytundeb Polisi Bywyd ac yn ôl cyfarwyddiadau a roddir gan yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd.

Mae buddsoddiadau yn cynnwys unedau mewn cronfeydd cyfun a reolir gan Baillie Gifford, ac ystyrir bod y daliadau'n werthadwy.

Prisiad Portffolio

	31 Mawrth 2014 GBP	31 Mawrth 2013 GBP
Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford	11,603,052	10,825,655
Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford	11,099,331	10,292,996
Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Gilt Plus' Baillie Gifford	2,328,226	2,345,540
CYFANSWM	25,030,609	23,464,191

Dosraniad yr Asedau

Dosraniad yr asedau ar 31 Mawrth 2014 oedd:

	31 Mawrth 2014 %	31 Mawrth 2013 %
Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford	46.4	46.1
Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford	44.3	43.9
Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Gilt Plus' Baillie Gifford	9.3	10.0
CYFANSWM	100.0	100.0

Amcan Perfformiad

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi pennu amcan perfformiad ar gyfer y rheolwyr buddsoddi sy'n ystyried proffil atebolrwydd y gronfa a'r lefel o risg sy'n briodol ym marn yr Ymddiriedolwyr.

Perfformiad hyd at fis Mawrth 2014 (%)

Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford	Cronfa (Net)	Meincnod
Rhagori ar Gronfa Gronedig Ganolrif CAPS 1.0 – 1.5% y flwyddyn gros dros gyfnodau treigl o 3 blynedd.		
Pum mlynedd (y flwyddyn)	16.4	13.3
Tair blynedd (y flwyddyn)	8.7	6.5
Un Flwyddyn	7.2	6.6

Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Gilt Plus Baillie Gifford	Cronfa (Net)	Meincnod
Rhagori ar Actiwarau'r FT dros Gronfa Fynegrifol Gilt Index 1.5% y flwyddyn (gros) dros gyfnodau treigl o dair blynedd. Cyn 10 Rhagfyr 2010 roedd am ragori ar Actiwarau'r FT dros Gronfa Fynegrifol Gilt Index 0.75% 5 mlynedd y flwyddyn (gros) dros gyfnodau treigl o 3 blynedd.		
Pum mlynedd (y flwyddyn)	8.7	8.8
Tair blynedd (y flwyddyn)	8.6	9.0
Un Flwyddyn	-5.9	-4.4

Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford	Cronfa (Net)	Meincnod
Rhagori ar gyfradd sylfaenol y DU 3.5% y flwyddyn (net ffioedd) dros gyfnodau treigl o bum mlynedd gyda chyfnewidioldeb blynyddol o lai 10%		
Pum mlynedd (y flwyddyn)	13.3	4.0
Tair blynedd (y flwyddyn)	5.1	4.0
Un Flwyddyn	1.1	4.0

Ffynhonnell: Statpro

Crynodeb o Ystadegau Risg

Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford	
Cyfnewidioldeb a gyflawnwyd	6.5

Cyfnewidioldeb blynyddol, wedi'i gyfrifo dros 5 mlynedd i ddiwedd Mawrth 2014
Ffynhonnell: Baillie Gifford

Cefndir yr Economi a'r Farchnad – 12 mis tan 31 Mawrth 2014

Aml Ddeiliad

Yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth, sicrhodd y rhan fwyaf o farchnadoedd buddsoddi mawr elw cryf. Roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i gynnydd yn hyder buddsoddwyr, yn rhannol o ganlyniad i well seiliau economaidd a chorfforaethol, ac yn rhannol mewn ymateb i barhad y polisi ariannol llac iawn sy'n parhau i fod yn nodweddiadol mewn nifer o wledydd datblygedig am lawer o'r cyfnod.

Yn yr Unol Daleithiau, profodd arwyddion bod yr adferiad economaidd yn cyflymu yn arbennig o fuddiol i berfformiad y marchnadoedd ecwiti. Ym mis Rhagfyr, datgelodd y Gronfa Ffederal gynlluniau i leihau ei rhaglen prynu bondiau ac yna cyhoeddodd gynlluniau i gwtogi ymhellach ar lefelau cymorth. Roedd optimistaeth wedi codi hefyd o ran y rhagolygon ar gyfer y DU, lle roedd data economaidd yn awgrymu bod y gwaethaf wedi mynd heibio, a rhoddodd hyn hwb i'r trafodaethau ynghylch cynnydd posibl mewn cyfraddau llog.

Yn y cyfamser, mae llywodraeth Shinzo Abe yn Japan yn parhau i geisio mynd i'r afael â phroblemau economaidd hirsefydlog yn y wlad ac, ar y cyfan, mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y farchnad stoc ddomestig. Mae'r awyrgylch fwy bywiog wedi ymestyn i Ardal yr Ewro, lle mae hyd yn oed yr aelod-wladwriaethau sydd wedi dioddef fwyaf gan yr argyfwng ariannol yn dangos arwyddion cynnar o welliant.

Cyrhaeddodd ecwitiai'r Unol Daleithiau y lefelau uchaf erioed, a dros y cyfnod o 12 mis, enillwyd 10% yn nhermau'r bunt. Yn y cyfamser, mae'r awyrgylch fwy cadarnhaol yn Ewrop wedi arwain at gynnydd o 17% yn y farchnad stoc. Roedd y DU ar ei hennill hefyd, gan gofnodi cynnydd o 9%. Mewn manau eraill, daeth y flwyddyn i ben yn gadarnhaol i'r Marchnadoedd Datblygol, wrth gofnodi cynnydd o 4%, er bod hyn yn golled o 11% ar ôl trosi o arian lleol. Yn yr un modd, cododd Asia Ddatblygedig (gan gynnwys Japan) 13% mewn termau arian lleol, ond mae hyn yn troi'n golled o 4% i fuddsoddwyr yn y DU.

Cymysglyd oedd hanes y Bondiau yn ystod y flwyddyn. Roedd bondiau llywodraeth yn DU 2% yn is, tra bo bondiau llywodraethau tramor wedi gostwng 8%, wedi'i fesur mewn arian lleol. I ddechrau, roedd yr elw ychwanegol ar fondiau corfforaethol yn ddeniadol i fuddsoddwyr a oedd yn ceisio gwella eu henillion mewn amgylchedd cyfradd llog isel ac, er eu bod wedi gweld gostyngaid wrth i'r cyfnod fynd yn ei flaen, daeth i ben 2% yn is.

Ar draws y portffolio, rydym yn parhau i ddod o hyd i amrywiaeth o fusnesau deniadol sy'n tyfu, ac y gallwn fuddsoddi ynddynt ac, o ganlyniad, rydym yn dal i ffafrio ecwitiai yn hytrach na bondiau.

Er bod yr amgylchedd buddsoddiad yn parhau i wella, nid oes gennym amheuaeth bod sialensau gwleidyddol ac economaidd pellach o'n blaenau. Fodd

bynnag, rydym, ar y cyfan, yn teimlo'n optimistig o ran y rhagolygon ar gyfer yr economi fyd-eang. Gall marchnadoedd fod yn gyfnewidiol yn y misoedd nesaf, ond rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ganfod cwmnïau sydd â rhagolygon twf rhagorol dros y tymor hwy, a buddsoddi ynddynt.

Twf Amrywiol

Yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth, cafwyd enillion cadarnhaol yn y rhan fwyaf o ddsbarthiadau o asedau. Roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i adennill hyder yn y marchnadoedd, yn rhannol am fod buddsoddwyr yn chwilio am ffyrdd eraill o sicrhau enillion, ac yn rhannol fel ymateb i barhad y polisi ariannol llac iawn sy'n parhau i fod yn nodwedd mewn nifer o wledydd datblygedig.

Yn yr Unol Daleithiau, parhaodd data economaidd i gryfhau, gan awgrymu bod yr adferiad yno yn cyflymu. Mae hyn yn arbennig o fuddiol i berfformiad marchnadoedd ecwiti. Ym mis Rhagfyr, datgelodd y Gronfa Ffederal gynlluniau i leihau ei rhaglen prynu bondiau ac yna cyhoeddodd gynlluniau i gwtogi ymhellach ar lefelau cymorth. Roedd optimistiaeth wedi codi hefyd o ran y rhagolygon ar gyfer y DU, lle roedd data economaidd yn awgrymu bod y gwaethaf wedi mynd heibio, a rhoddodd hyn hwb i'r trafodaethau ynghylch cynnydd posibl mewn cyfraddau llog.

Yn Ewrop, rydym wedi gweld datblygiadau yn Wcráin a allai ansefydlogi pethau, sydd wedi gwrthbwyso peth o'r momentwm economaidd cadarnhaol diweddar. Mae'r bygythiad o ddatblygiad hefyd yn ymddangos yn fwy real yng ngwladwriaethau ardal yr Ewro. Mae'r syniad o gyflwyno mesurau lleddfu meintiol wedi cael ei ddiystyrru ar ôl i'r Almaen fynnu hynny, ond mae sylwadau diweddar gan lywydd y Deutsche Bundesbank yn ymddangos fel pe baent wedi gwneud y posibilrwydd o bolisi ariannol llac iawn yn bosibilrwydd.

Y prif gyfranwyr i berfformiad y Gronfa Twf Amrywiol oedd asedau risg economaidd, yn enwedig ecwitiau rhestredig. Cafwyd cyfraniadau cryf hefyd gan ddsbarthiadau asedau eraill sy'n agored i newidau economaidd, fel bondiau ecwiti preifat a bondiau enillion uchel. Cafodd y rhan fwyaf o'r gweddill effaith gadarnhaol ar berfformiad, gyda meysydd arbenigol fel bondiau yswiriant cysylltiedig a seilwaith yn sicrhau enillion cyson. Mewn cyferbyniad, roedd asedau'r marchnadoedd datblygol, yn dioddef, fel y gwnaeth nwyddau, a oedd yn gostwng o ganlyniad i ddata economaidd Tseiniaidd a oedd yn wannach na'r disgwyl.

Yn ystod rhan gyntaf 2014, fe wnaethom gynyddu'r ddyled graddfa fuddsoddi ac arenillion uchel. Cafodd hyn ei wneud yn bennaf trwy brynu bondiau cyfradd AAA Banc Buddsoddi Ewrop a chyfres o fuddsoddiadau llai mewn cronfeydd benthycia corfforaethol sy'n cynhyrchu enillion uwch, y credwn sy'n cynnig gwerth arbennig o dda. Rydym hefyd wedi cynyddu ein buddsoddiad mewn aur yng ngoleuni

datblygiadau yn Wcráin ac wedi gweithredu sefyllfa doler byr Awstralia yn erbyn doler hir yr Unol Daleithiau, y credwn fydd yn gweithredu fel sicrwydd da yn erbyn unrhyw feddalau pellach o economi Tseina.

Cafodd buddsoddiad y Gronfa i ecwiti rhestredig a phreifat ei ostwng, gan adlewyrchu i ba raddau y mae ecwiti wedi codi. Disgynnodd lledaeniad bondiau hefyd i isafswm canol-blwyddyn, ond roedd y symudiad yn llai dramatig. Mae buddsoddiad y Gronfa i warannau sy'n gysylltiedig ag yswiriant wedi cael ei leihau. Mae poblogrwydd cynyddol y dosbarth asedau wedi golygu mwy o alw nag sydd o gyflenwad ar draul enillion disgwylidig. Gwnaethom ostyngiadau llai hefyd i i ddsbarthiadau asedau eraill lle mae prisiau wedi codi.

Mae banciau canolog yn dal i ystyried beth yw'r ffordd orau o normaleiddio, neu hyd yn oed gynnal, polisi ariannol heb siglo adferiad bregus neu arwain at ddatblyddiant. Efallai fod hyn yn esbonio pam, er gwaethaf y codiad yn y marchnadoedd, bod rhai agweddau sy'n codi ofn ar fuddsoddwyr, fel pris opsiynau sy'n diogelu yn erbyn cwmp eithafol yn y farchnad stoc, yn dal yn uchel. Fodd bynnag, er gwaetha'r pryderon, ymddengys fod rhywfaint o sylwedd i'r adferiad sydd ar y gweill ac rydym yn disgwyl i hyn barhau ar draws y byd, er mai araf fydd hynny.

Y Daliadau Mwyaf

Y Deg Daliad Mwyaf

Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford	% o Portffolio
Baillie Gifford Emerging Mkts Gwth Fund C Accum	7.9
BG Worldwide Global Credit C GBP Acc	3.4
Baillie Gifford Emerging Mkts Bond Fd C Gross Acc	3.0
Baillie Gifford Global Bond Gross C Acc	1.7
Baillie Gifford British Smaller Cos Fund C Accum	1.7
Ashtead	1.6
St James's Place	1.6
BG Worldwide Active Cash Plus Fund C Acc	1.5
Svenska Handelsbanken	1.3
Prudential	1.2

Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford	% o Portffolio
Baillie Gifford Emerging Mkts Bond Fd C Gross Acc	8.6
BG Worldwide Global Credit C USD Acc	6.0
Baillie Gifford Global Alpha Growth Fund C Acc	5.3

Baillie Gifford Global Income Fund C Accum	4.9
Source Physical Gold P-ETC	4.8
Baillie Gifford High Yield Fund Gross C Acc	4.8
EIB 1.375% 2018	2.8
Metreta Fund GBP	2.7
Galene Fund GBP	2.6
BG Worldwide Active Cash Plus Fund C Acc	2.0

Polisi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant Baillie Gifford

Mae Baillie Gifford yn cydnabod bod hawliau a chyfrifoldebau arbennig yn cyd-fynd â bod yn berchen ar gyfranddaliadau cwmni ar ran cleientiaid. Ar yr un pryd, mae materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant, a'r modd y caiff y materion hyn eu rheoli, yn rhan annatod o gynaliadwyedd busnes. Oherwydd hyn, mae Baillie Gifford yn ystyried materion o'r fath wrth ddadansoddi ac adolygu cwmni, ac mae Tîm Llywodraethu Corfforaethol penodol hefyd yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm â bod yn berchen ar gyfranddaliadau ar ran ein cleientiaid.

Fel rheolwyr gweithredol, rhan allweddol o'n strategaeth fuddsoddi yw asesu safon rheolaeth cwmnïau, ac yn benodol agweddau'r rheolwyr at gyfranddalwyr. Wrth gyfuno gwybodaeth busnes anariannol â gwybodaeth ariannol, ceir dealltwriaeth werthfawr o safon y rheoli'n gyffredinol. O gofio bod materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant yn faterion tymor canolig a hirdymor, a bod ein cleientiaid yn buddsoddi yn yr hirdymor, mae'n bwysig ein bod yn ystyried agweddau cwmnïau tuag at y materion hyn fesul achos.

Mae ein hagwedd tuag at y materion cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n cyd-fynd â pherchnogaeth cyfranddaliadau'n seiliedig ar ymgysylltu a thrafod yn hytrach nag allgáu. Drwy ddefnyddio ymchwil mewnol ac allanol, rydym yn i nodi materion allweddol yn ymwneud â chyfranddaliadau ein cleientiaid ac wedi'u trafod â'r cwmnïau dan sylw. Yn y modd hwn, rydym yn annog cwmnïau i fonitro ac i ddelio â'r risgiau a'r cyfleoedd amgylcheddol a chymdeithasol perthnasol sy'n wynebu eu busnesau. Rydym yn credu y gall y broses hon gyfrannu at werth buddsoddiadau ein cleientiaid yn yr hirdymor.

30 Ebrill 2014



**Adran
Actiwari'r
Llywodraeth**

Finlaison House
15-17 Furnival Street
London
EC4A 1AB

CYNLLUN PENSIWN AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

DATGANIAD YR ACTWARI – AM Y FLWYDDYN ARIANNOL HYD AT 31 Mawrth 2014

Caiff Cynllun Pensiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei eithrio o'r gofyniad fel y'i nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon wedi'u harchwilio o fewn saith mis ar ôl diwedd y flwyddyn gyfrifo. Fodd bynnag, bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ethos y ddeddfwriaeth, ac yn hynny o beth, mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn yr un modd â phe byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu.

Asesiad Actiwaraidd

Cynhaliwyd asesiad actiwaraidd ffurfiol o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynllun) gyda dyddiad gweithredol o 1 Ebrill 2011, a'r prif amcan oedd gwneud argymhelliad i Ymddiriedolwyr y Cynllun ynghylch lefel briodol cyfradd cyfraniad y cyflogwr ar ôl y dyddiad hwnnw. Er bod swm cyfraniadau aelodau wedi'i bennu yn y Rheolau, mae cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn cael ei bennu fel canran y cyflog sydd ei hangen i dalu balans y gost gyda'r bwriad o sicrhau y telir am fuddiannau'r Cynllun yn ystod gwasanaeth gweithredol yr Aelod â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dull

Ar gyfer prisiad actiwaraidd 2011, cafodd y rhwymedigaethau y disgwyliwyd iddynt gronni o dan y Cynllun yn ystod y flwyddyn yn dilyn y dyddiad prisio eu prisio gan ddefnyddio'r dull prisiad actiwaraidd sef y *Dull Rhagamcanu Unedau*. Mynegir *Cyfradd Cyfraniad Safonol* y Dull Rhagamcanu Unedau fel gwerth y buddiannau a gronnir yn ystod y cyfnod rheoli wedi ei rannu â gwerth presennol enillion aelodau yn ystod y cyfnod hwn. Disgwylir i'r dull prisio hwn ddarparu cyfradd cyfraniad safonol lled sefydlog ar gyfer prisiadau actiwaraidd olynol cyhyd ag y bo'r dosbarthiad o aelodau'r Cynllun o ran oedran/rhyw/cyflog yn aros yn lled gyson.

Cymharwyd gwerth y rhwymedigaethau a gronnwyd hyd at y dyddiad prisio â gwerth asedau'r Cynllun ar yr un dyddiad. Gellid fod wedi adlewyrchu'r gwarged

o £1.64m fel addasiad i'r Gyfradd Cyfraniad Safonol. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau â'r Ymddiriedolwyr, mae'r gyfradd cyfraniad a argymhellir ar gyfer cyflogwyr yr un fath ag sy'n daladwy yn dilyn prisiad 2008. Mae hyn yn is na'r Gyfradd Cyfraniad Safonol llawn llai cyfraniadau aelod, ond yn uwch nag y byddai wedi bod pe byddai'r Gyfradd Cyfraniadau Safonol wedi'i haddasu i gael gwared ar y gwaged yn y cynllun dros 15 mlynedd.

Tybiaethau

Er mwyn cyfrifo cost buddiannau'r Cynllun, mae'n rhaid gwneud rhai tybiaethau actiwaraidd o ran incwm disgwylidig y Cynllun yn y dyfodol a'r budd-daliadau a delir ganddo. Mae'r Gyfradd Cyfraniad Safonol yn golygu y byddai'n ddigonol i gyllido'r buddiannau a gronnir ar ôl y dyddiad prisio os yw'r profiad yn unol â'r tybiaethau a wnaethpwyd. Efallai y bydd angen addasu'r Gyfradd Cyfraniad Safonol yn y dyfodol i ystyried unrhyw wahaniaeth rhwng profiadau'r Cynllun a'r tybiaethau cyllid.

Dangosir y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd ym mhrisiad actiwaraidd 2011 i gyfrifo cost buddiannau'r Cynllun yn y tabl isod.

Adenillion buddsoddiad, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant cyflog	1 ¼ % y flwyddyn
Adenillion buddsoddiad, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant pris (yn seiliedig ar y Fynegai Prisiau Defnyddwyr)	3½ % y flwyddyn
Hirhoedledd pensiynwyr – yn seiliedig ar dablau safonol a gyhoeddir gan yr Ymchwiliad Parhaus i Farwolaethau (tablau ysgafn SAPS) gyda gwelliannau yn y dyfodol yn unol â phrif ragamcanion yn seiliedig ar boblogaeth 2010 a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol	

Nodir manylion pellach am y dulliau a'r tybiaethau a ddefnyddir yn yr adroddiad ar yr asesiad actiwaraidd fel ag yr oedd ar 1 Ebrill 2011, dyddiedig 26 Mawrth 2012.

Cyfradd Cyfraniadau


Mae Aelodau yn talu cyfraniadau cyfwerth â 10% o'u cyflog pensiynadwy os ydynt yn cronni un rhan o ddeugain o'u tâl pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth, neu 6% o'u tâl pensiynadwy os ydynt yn cronni un rhan o hanner cant. Gan ddefnyddio'r dull a'r tybiaethau uchod, yr asesiad ar gyfer cyfraniad y cyflogwr oedd 23.8% o gyflog pensiynadwy o 1 Ebrill 2012 ymlaen, sydd yr un gyfradd ag sy'n daladwy rhwng 1 Ebrill 2009 ac 1 Ebrill 2012. Mae'r gyfradd hon yn cynnwys darpariaeth lawn o ran budd-dâl marwolaeth, gan gynnwys cynnydd yn y buddiannau hyn ers i'r cynllun ddechrau, a hefyd lwfans ar gyfer costau gweinyddu.

Diogelwch yr Hawliau Arfaethedig

Yn fy marn i, mae adnoddau'r cynllun yn debygol, o dan amgylchiadau arferol, o gwrdd â rhwymedigaethau llawn y cynllun fel y mae. Wrth fynegi'r farn hon, rwyf wedi cymryd yn ganiataol y bydd cyfraniadau'r cyflogwr a'r aelod yn cael eu talu i'r Cynllun fel y disgrifir yn y paragraff "Cyfradd Cyfraniadau" yn unol â'r adolygiad yn ystod yr asesiadau actiwaraidd.

Asesiad nesaf yr Actiwari

Mae prisiad ffurfiol nesaf y Cynllun, gan yr actwari, yn cael ei gynnal gyda dyddiad gweithredol o 1 Ebrill 2014. Mae'r tybiaethau arfaethedig ar gyfer y prisiad wedi eu hystyried gan Ymddiriedolwyr yn eu cyfarfod ym mis Mawrth a disgwylir i'r canlyniadau prisiad actiwaraidd rhagarweiniol gael eu hadrodd i'r Ymddiriedolwyr yn yr hydref a disgwylir yr adroddiad llawn ym mis Chwefror 2015. Prif ddiben y prisiad llawn yw asesu a yw cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr a argymhellwyd yn ddigonol, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol ers y prisiad blaenorol.



I A Boonin
Cymrawd Athrofa a Chyfadrn yr Actiwariaid
6 Mai 2014

Adran Actiwari'r Llywodraeth
Finlaison House
15-17 Furnival Street
London EC4A 1AB

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol trwy statud i'r Ymddiriedolwyr gydymffurfio â rheoliadau cynllun pensiwn, ond maent wedi cytuno i wneud hynny pan fo hynny'n bosibl oherwydd bod hynny'n arfer da. Yn ôl y rheoliadau, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr sicrhau bod datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer bob blwyddyn o'r Cynllun ar gael i aelodau'r cynllun, buddiolwyr a rhai partion eraill a bod yn rhaid i'r datganiadau hyn:

- roi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y cynllun yn ystod blwyddyn y cynllun ac o swm a sefyllfa'r asedau a'r rhwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn honno, ar wahân i'r cyfrifoldebau i dalu pensiynau a buddion ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun, ac
- yn cynnwys y wybodaeth benodol yn yr Atodlen i'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, gan gynnwys datganiad yn nodi a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 'Adroddiadau Ariannol o Gynlluniau Pensiwn'.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi goruchwylio'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol ac maent wedi cytuno ar bolisiau cyfrifyddu addas, sydd i'w gweithredu'n gyson gan wneud unrhyw amcangyfrifon a dod i unrhyw farn ar sail ddarbodus a rhesymol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau y cedwir at reolau'r Cynllun ac argymhellion yr Actwari o ran y cyfraniadau sy'n daladwy i'r Cynllun neu gyfraniadau gan, neu ar ran, y cyflogwr ac aelodau gweithredol y cynllun a'r dyddiadau y mae'r cyfraniadau hyn i'w talu. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am gadw cofnod o gyfraniadau a dderbyniwyd mewn perthynas ag unrhyw aelod gweithredol o'r cynllun ac am sicrhau bod cyfraniadau'n cael eu gwneud i'r Cynllun yn unol ag argymhellion Actiwari'r Cynllun.

Hefyd mae gan yr Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu digonol yn cael eu cadw ac am gymryd y camau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu asedau'r cynllun ac i atal a darganfod unrhyw dwyll neu anghysonderau eraill, gan gynnwys cynnal dulliau rheoli mewnol priodol.

**Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o'r Cyfraniadau a dalwyd yn y flwyddyn**

Dyma'r cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn i'r cynllun gan y Cyflogwr yn unol ag argymhellion yr Actiwari:

	2013-14 £	2012-13 £
Cyfraniadau arferol y cyflogwr	981,125	964,370
Cyfraniadau arferol y Gweithiwr Cyflogedig	404,331	397,973
Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol y gweithiwr i brynu blynyddoedd ychwanegol	10,754	9,409
Cyfanswm y cyfraniadau	<u>1,396,210</u>	<u>1,371,752</u>



**William Graham
Aelod Cynulliad
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr**

(ar ran yr Ymddiriedolwyr)

Dyddiad: 23 Mehefin 2014



**Gareth Jones
Ymddireidolwr**

Cysoni'r cyfraniadau a dalwyd, a welir uchod, a'r cyfraniadau a nodwyd yn y datganiadau ariannol:

	2013-14 £	2012-13 £
Cyfraniadau a dalwyd:	1,396,210	1,371,452
Llai dyledwr agoriadol:	(115,025)	(112,835)
Ynghyd â'r dyledwr cloi:	<u>117,190</u>	<u>115,025</u>
Cyfraniadau a nodwyd yn y datganiadau ariannol:	<u>1,398,375</u>	<u>1,373,942</u>

Datganiad yr Archwilydd Annibynnol o Gyfraniadau, o dan Reoliad 4 y Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yr wyf wedi archwilio'r crynodeb o'r cyfraniadau i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am flwyddyn y cynllun a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014, a nodir ar dudalen 19.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Archwilwyr

Fel y disgrifir ar dudalen 19, Ymddiriedolwyr y cynllun sy'n gyfrifol am sicrhau bod rhestr o gyfraniadau yn cael ei pharatoi, ei chynnal a'i hadolygu o bryd i'w gilydd, sy'n nodi'r cyfraddau a'r dyddiadau dyledus yng nghyswllt rhai cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun gan neu ar ran y cyflogwr ac aelodau gweithredol y cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am gadw cofnod o gyfraniadau a dderbyniwyd mewn perthynas ag unrhyw aelod gweithredol o'r Cynllun ac am fonitro a oes cyfraniadau'n cael eu gwneud i'r Cynllun gan y Cyflogwr yn unol â'r rhestr o gyfraniadau.


Fy nghyfrifoldeb i yw darparu datganiad am gyfraniadau a dalwyd o dan yr rhestr o gyfraniadau ac i roi fy marn i chi.

Cwmpas y gwaith ar y datganiad am gyfraniadau

Mae fy archwiliad yn ymwneud â chael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol fod y cyfraniadau a nodir yn y crynodeb o gyfraniadau ar dudalen 19, ym mhob cyswllt perthnasol wedi'u talu o leiaf yn unol â'r rhestr o gyfraniadau. Mae hyn yn cynnwys archwilio, ar sail profion, y dystiolaeth a oedd yn gysylltiedig â swm y cyfraniadau a oedd yn daladwy i'r cynllun a phryd y gwnaed y taliadau hynny, o dan y rhestr o gyfraniadau.

Datganiad am gyfraniadau a oedd yn daladwy o dan y rhestr o gyfraniadau

Yn fy marn i mae cyfraniadau i'r cynllun yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014, fel yr adroddwyd yn y crynodeb o gyfraniadau, ac a oedd yn daladwy o dan y rhestr o gyfraniadau wedi'u talu ym mhob cyswllt perthnasol yn unol â Datganiad yr Actwari a ardystiwyd gan Actwari'r Cynllun ar 6 Mai 2014.



Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad: 24 Gorffennaf 2014

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Datganiad Llywodraethu

Cwmpas y cyfrifoldeb

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb fel Ymddiriedolwyr am gynnal system gadarn o lywodraethu i ddiogelu cronfeydd ac asedau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â Chynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gynllun statudol ac mae'n gynllun pensiwn cofrestredig o dan Ddeddf Cyllid 2004. Cyfeirnod Treth y Cynllun Pensiwn (PSTR) yw 00462258RW

Mae'r Tîm Pensiynau o fewn Gwasanaethau Ariannol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu gwasanaethau ysgrifenyddol a gweinyddol i'r Ymddiriedolwyr ac mae'r trefniant hwn yn dod o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Bwrdd), Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) a'r Ymddiriedolwyr. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi rolau a chyfrifoldebau priodol y Bwrdd, y Comisiwn a'r Ymddiriedolwyr o ran rheoli a gweinyddu Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y Fframwaith Llywodraethu

Caiff yr Ymddiriedolwyr, ac eithrio'r Ymddiriedolwr Pensiynwr sy'n Aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, eu penodi gan Benderfyniad y Cynulliad yn unol â rheolau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Atodlen 1, Darpariaethau Cyffredinol parthed Ymddiriedolwyr, o reolau'r Cynllun yn nodi y bydd y Cynulliad, drwy benderfyniad, yn penodi dim mwy na chwe aelod i fod yn Ymddiriedolwyr y Cynllun hwn, a bydd un ohonynt yn Ymddiriedolwr pensiynwr. Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr yw 3. Caiff cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr eu diffinio'n glir yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ar dudalen 18 o fewn yr Adroddiad Blynyddol.

Cafodd yr Aelodau canlynol eu penodi'n Ymddiriedolwyr drwy benderfyniad gan y Cynulliad:

Rôl	Enw	Dyddiad Penodi	Canran o gyfarfodydd a fynychwyd
Cadeirydd	William Graham AC	03/06/2009	100%
Ymddiriedolwr	David Melding AC	12/10/2011	33%
Ymddiriedolwr	Peter Black AC	12/10/2011	100%
Ymddiriedolwr	Jocelyn Davies AC	12/10/2011	66%
Ymddiriedolwr	Mike Hedges AC	12/10/2011	100%
Pensiynwr Ymddiriedolwr	Gareth Jones	09/06/2010	100%

Etholwyd Mr Graham yn Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr yn ystod cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr ym mis Hydref 2009.

Safodd Mr Jones i lawr fel Aelod Cynulliad ym mis Mawrth 2011, ond fe'i penodwyd yn Ymddiriedolwr Pensiynwr drwy bleidlais o aelodau sy'n bensiynwyr ym mis Hydref 2011. Ef yw'r unig Ymddiriedolwr sy'n gwasanaethu am gyfnod penodedig sy'n 5 mlynedd tan 4 Hydref 2016.

Cyflwynodd Mr Melding a Ms Davies ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfodydd nad oeddynt yn gallu bod yn bresennol ynddynt gan eu bod yn cymryd rhan mewn Busnes y Cynulliad.

Yn ystod y flwyddyn ystyriodd yr Ymddiriedolwyr yr adroddiadau manwl canlynol:

- Effaith y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cynllun Busnes Tymor Canolig a fabwysiadwyd ar ôl hynny
- Mae'r dull arfaethedig i'r Prisiad Actiwaraidd a ddisgwylir ar 1 Ebrill 2014

Mae'r adroddiadau, ac eithrio'r Cynllun Busnes lle mae y defnyddiwyd gwasanaethau ymgynghorydd annibynnol, eu paratoi a'u cyflwyno gan gynghorwyr proffesiynol y Cynllun.

Roedd y wybodaeth hon, ynghyd â phapurau briffio ychwanegol a baratowyd gan yr Ysgrifenyddiaeth yn darparu data o ansawdd da sy'n caniatáu i'r Ymddiriedolwyr arfer eu swyddogaethau'n effeithiol yn ystod y cyfnod yr adroddiad hwn.

Diben y system rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei ddarparu.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus i geisio nodi'r prif risgiau sy'n bygwth nodau ac amcanion Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn gwerthuso natur a maint y risgiau hynny a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system yn seiliedig ar fframwaith rheoli gwybodaeth yn rheolaidd, rheoli ariannol, gweithdrefnau gweinyddol, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yng Nghynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i

ben ar 31 Mawrth 2014 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

Problemau Rheolaeth Fewnol Sylweddol

Ni nodwyd unrhyw broblemau Rheolaeth Fewnol sylweddol yn ystod y flwyddyn.

Y gallu i ymdopi â risg

Caiff y cyfrifoldeb dros weinyddu a chyfrifyddu'r Cynllun o ddydd i ddydd ei ysgwyddo ar ran yr Ymddiriedolwyr gan staff yr Ysgrifenyddiaeth o fewn Gwasanaethau Ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth.

Digwyddiadau Data Personol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â data personol na cholli data yn ystod y flwyddyn.

Rheoli Risg

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, adolygwyd y gofrestr risg ar gyfer y Cynllun, a chafodd ei diweddarau a'i chytuno gyda'r Ymddiriedolwyr fel rhan o'r cynllun busnes tymor canolig a fabwysiadwyd yn ffurfiol gan yr Ymddiriedolwyr ar 24 Mawrth 2014. Caiff pob risg ei nodi a'i hasesu mewn tri chategori, sef uchel / canolig / isel, yn seiliedig ar ffactorau fel y tebygolrwydd y byddai'r risg yn digwydd, effaith y risg pe bai'n digwydd a'r rheolaethau sydd yn eu lle ar hyn o bryd i reoli pob risg a nodwyd.

Defnyddiwyd y gofrestr a ddeilliodd o hyn i ganfod unrhyw fesurau ychwanegol a ystyrir yn angenrheidiol i reoli'r risgiau yn effeithiol. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r risgiau sydd wedi eu nodi a'r mesurau a roddwyd yn eu lle i leihau eu heffaith:

- **Buddsoddiadau** Risg na fydd buddsoddiadau yn cynhyrchu digon o enillion gan effeithio, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol y cynllun. Caiff perfformiad buddsoddiadau ei adolygu gan yr Ymddiriedolwyr bob chwarter gydag ymgynghorydd buddsoddi'r Cynllun yn llunio adroddiad blynyddol ar berfformiad buddsoddiadau;
- **Cofnodion Cynllun Pensiwn:** Risg o gofnodion anghyflawn neu anghywir yn arwain at daliadau anghywir / anawdurdodedig neu wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth anghyflawn. Mae cofnodion cywir wedi cael eu cadw o aelodau a chyn-aelodau, trafodion y gorffennol a'r presennol i mewn ac allan o'r Cynllun ac o gyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr;

- **Gweinyddu'r Cynllun** Mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro'r camau a gymerir gan y staff gweinyddol i reoli risgiau yn eu meysydd cyfrifoldeb ym mhob cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr;
- **Aelodau:** Mae gweithdrefn ar waith i ddatrys anghydfodau am y Cynllun gydag aelodau. Darperir gwybodaeth reolaidd i aelodau'r cynllun drwy gylchlythyron ac mewn cyfarfodydd grŵp;

Adolygu Effeithiolrwydd

Cawn gymorth i ddatblygu a chynnal y rheolaethau mewnol gan waith Archwilwyr Mewnol Comisiwn y Cynulliad a'r uwch reolwyr o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol.


Caiff ein hadolygiad o effeithiolrwydd y rheolaethau hyn ei lywio gan waith Archwilydd Cyffredinol Cymru. Caiff y sylwadau a wnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei lythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill eu hystyried.

Rydym yn fodlon bod y rheolaethau mewnol mewn lle wedi bod yn effeithiol yn ystod y cyfnod a gaiff ei gynnwys gan yr adroddiad hwn.

Cymeradwywyd ar ran yr Ymddiriedolwyr ar 23 Mehefin 2014 gan:



William Graham
Aelod Cynulliad
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr
 (ar ran yr Ymddiriedolwyr)



Gareth Jones
Ymddiriedolwr

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwyf wedi archwilio Datganiadau Ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014, sy'n cynnwys cyfrif y gronfa, y datganiad asedau net a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Priod gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwilwyr

Fel yr eglurir yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a nodir ar dudalen 18, ymddiriedolwyr y cynllun sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol fy mod yn cydymffurfio â'r Safonau Moesegol i Archwilwyr a gyhoeddir gan y Bwrdd Arfer Archwilio.

Cwmpas archwilio'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu casglu tystiolaeth am y symiau a'r hyn a ddatgelir yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, pa un a achosir hynny gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'u bod wedi'u cymhwyso a'u datgelu'n gyson; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wneir gan yr ymddiriedolwyr; a chyflwyniad y datganiadau ariannol yn gyffredinol.


Yn ogystal rwy'n darllen yr holl wybodaeth ariannol a'r rhai nad ydynt yn ariannol yn adroddiad yr Ymddiriedolwyr i nodi anghysonderau perthnasol gyda'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os byddaf yn dod ar draws unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol tebygol, byddaf yn ystyried goblygiadau hyn ar gyfer fy adroddiad.

Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y cynllun yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014, a swm a sefyllfa ei asedau a'i rwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw, heblaw am y rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddiannau ar ddiwedd y flwyddyn;

- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- yn cynnwys y wybodaeth a bennir yn Rheoliad 3 o Reoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiledig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, a'r Atodlen iddynt, a wneir o dan Ddeddf Pensiynau 1995.



Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad: 24 Gorffennaf 2014

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth, 2014

<u>Cyfrif y Gronfa</u>		2013-14	2012-13
		£	£
Incwm y Cynllun			
Cyfraniadau i'w derbyn	4	1,398,375	1,373,942
Trosglwyddiadau i mewn		8,341	35,838
Llog a dderbyniwyd		35	26
Incwm amrywiol	5	322	3,829
		<hr/>	<hr/>
		1,407,073	1,413,635
Gwariant y Cynllun			
Budd-daliadau sy'n daladwy	6	606,740	363,208
Ffioedd proffesiynol	7	33,319	46,864
Costau Gweinyddol Eraill	11	3,580	10,518
		<hr/>	<hr/>
		643,639	420,590
Ychwanegiadau net o drafodion ag Aelodau		<hr/>	<hr/>
		763,434	993,045
Buddsoddiadau			
Newid yng ngwerth buddsoddiadau'r Gronfa Reoledig ar y farchnad	8	777,397	1,426,500
Newid yng ngwerth buddsoddiadau'r Gronfa Fynegrifol ar y farchnad		(138,056)	271,999
Newid yng ngwerth buddsoddiadau'r Gronfa Twf Amrywiol ar y farchnad		122,133	971,783
Llog arian cadw	9	822	752
		<hr/>	<hr/>
Cynnydd net yn y gronfa yn ystod y flwyddyn		1,525,730	3,664,079
Asedau net y cynllun ar 1 Ebrill 2013		23,961,960	20,297,881

Asedau net y cynllun ar 31 Mawrth 2014

25,487,690

23,961,960

Datganiad Asedau Net

Fel ar 31
Mawrth 2014
£

Fel ar 31
Mawrth
2014
£

Buddsoddiadau


Cronfa reoledig	8	11,603,052	10,825,655
Cronfa fynegrifol		2,328,226	2,345,540
Cronfa Twf Amrywiol		11,099,331	10,292,996
Asedau Cyfredol	9	483,844	519,219
Rhwymedigaethau Presennol	10	(26,763)	(21,450)
Asedau net y cynllun ar 31 Mawrth 2014		25,487,690	23,961,960

Dim ond crynhoi trafodion ac asedau net y cynllun mae'r cyfrifon ac nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion eraill ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun.

Cymeradwywyd ar ran yr Ymddiriedolwyr ar 23 Mehefin 2014:



William Graham
Aelod Cynulliad
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr



Gareth Jones
Ymddireidolwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 34 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon

1. Sail y gwaith paratoi

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir ar Adroddiadau Ariannol Cyfrifon Cynlluniau Pensiwn, a ddiwygiwyd ym mis Mai 2007.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion ac asedau net y cynllun. Nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddiannau eraill yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad actiwaraidd yn ystyried y rhwymedigaethau hyn (gellir gweld datganiad yr actwari ar dudalennau 15 i 17).

2. Polisiâu Cyfrifyddu

Dyma brif bolisiâu cyfrifyddu'r cynllun:

- cyfrifir cyfraniadau arferol, cyfraniadau gwirfoddol i brynu blynyddoedd ychwanegol yn y flwyddyn y maent yn ddyledus.
- cyfrifir buddiannau ar y diwrnod y maent yn ddyledus a chyfrifir ad-daliadau cyfraniadau pan fyddant yn cael eu gwneud.
- mae trosglwyddo gwerthoedd o un cynllun pensiwn i un arall yn cynrychioli'r symiau a gafodd eu derbyn a'u talu yn ystod y flwyddyn i aelodau sydd wedi ymuno â'r Gronfa neu ei gadael.
- cyfrifir yr holl wariant arall yn y cyfnod sy'n berthnasol iddo.
- nodir buddsoddiadau ar yr un pris terfynol sy'n cael ei gyfrifo ar sail pris terfynol y gwariannau gwaelodol ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Gall hyn fod yn wahanol i'r pris a ddefnyddir ar gyfer prynu a gwerthu unedau.

3 Ysgrifenyddiaeth

Mae'r gost o ddarparu staff ar gyfer ysgrifenyddiaeth y Cynllun yn parhau i gael ei dalu'n uniongyrchol gan Gomisiwn y Cynulliad o dan amodau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno rhwng y Comisiwn a'r Ymddiriedolwyr. Amcangyfrifir mai £77,500 (2012-13 £75,600) oedd y gost ar gyfer cyfnod y cyfrifon hyn.

4. Cyfraniadau i'w Derbyn

	<u>2013-14</u>	<u>2012-13</u>
Mae cyfraniadau'n cynnwys:	<u>£</u>	<u>£</u>
Cyflogwr: cyfraniadau arferol	982,719	964,965
Aelodau: cyfraniadau arferol	404,902	398,223
: prynu Blynnyddoedd Ychwanegol	10,754	10,754
	<hr/>	<hr/>
	1,398,375	1,373,942
	<hr/>	<hr/>

Cyfrannodd aelodau 10% i Gronni Buddion yn seiliedig ar un rhan o ddeugain a 6% i Gronni Buddion yn seiliedig ar un rhan o hanner cant gyda Chomisiwn y Cynulliad yn cyfrannu 23.8% o gyflogau blwydd-daladwy i'r Cynllun.

Parhaodd contractau dwy flynedd ychwanegol dros gyfnod o bedair blynedd yn ystod y flwyddyn ac ni ddefnyddiwyd cyfandaliad i wneud unrhyw brynant.

5. Incwm amrywiol

Nid yw'r Cynllun ar hyn o bryd yn talu'r ardoll cynllun pensiwn ond codwyd tâl o £322 yn ystod y blynnyddoedd 2001-04 gan Opra. Ni ddylid bod wedi talu'r swm hwn ac fe'i dychwelwyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Roedd yr incwm yn 2012-13 yn cynrychioli ad-daliad o 0.20% ar y rheoli blynnyddol safonol gan Baillie Gifford ar gyfer buddsoddi yn y tâl Cronfa Pensiwn Twf wedi'i Arallgyfeirio tan 1 Mehefin 2012.

Y £322 yw'r ad-daliad a gafwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau yn ystod 2013-14 (2012-13 £3,829)

6. Budd-daliadau taladwy

	<u>2013-14</u>	<u>2012-13</u>
	<u>£</u>	<u>£</u>
Pensiynau	347,130	314,685
Budd-daliadau Ymddeol - Cyfandaliadau	259,610	48,523
Cyfandaliad Budd-daliadau Marwolaeth	-	-
	<hr/>	<hr/>
	606,740	363,208
	<hr/>	<hr/>

7. Ffioedd Proffesiynol

	<u>2013-14</u>	<u>2012-13</u>
	<u>£</u>	<u>£</u>
Ffioedd Actiwaraid	6,920	10,358

Ymgynghoriaeth Fuddsoddi	6,494	11,368
Ffi Archwilio	13,079	12,600
Ffioedd Cyfreithiol	6,826	12,538
	<u>33,319</u>	<u>46,864</u>

Gostyngodd ffioedd actiwaraid, ymgynghoriaeth fuddsoddi a chyfreithiol yn ystod y flwyddyn gan adlewyrchu gweithgarwch proffesiynol is.

9. Buddsoddiadau

Delir yr holl fuddsoddiadau yng Nghronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford.

a) Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford		<u>31 Mawrth 2014</u>	<u>31 Mawrth 2013</u>
	Unedau	<u>£</u>	<u>£</u>
Gwerth y farchnad ar 1 Ebrill	1,582,004	10,825,655	13,149,155
Prisiau prynu	-	-	-
Gwerthwyd	-	-	(3,750,000)
Newid yn y gwerth ar y farchnad		835,614	1,482,450
Treuliau Rheolwyr Buddsoddi		(50,380)	(45,874)
Brocer a threuliau eraill		<u>(7,837)</u>	<u>(10,076)</u>
Newid yn y gwerth ar y farchnad		777,397	1,426,500
Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth	1,582,004	11,603,052	10,825,655
Costau ar 31 Mawrth		4,808,154	4,808,154

b) Cronfa Bensiwn Fynegrifol Baillie Gifford		<u>31 Mawrth 2014</u>	<u>31 Mawrth 2013</u>
	Unedau	£	£
Gwerth y farchnad ar 1 Ebrill	923,259	2,345,540	1,926,872
Prisiau prynu	50,283	120,742	146,669
Gwerthwyd	-	-	-
Newid yn y gwerth ar y farchnad		(132,173)	277,411
Treuliau Rheolwyr Buddsoddi		(5,657)	(5,186)
Brocer a threuliau eraill		<u>(226)</u>	<u>(226)</u>
Newid yn y gwerth ar y farchnad		(138,056)	271,999
Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth	973,542	2,328,226	2,345,540
Costau ar 31 Mawrth		1,680,596	1,559,855

c) Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford		<u>31 Mawrth 2014</u>	<u>31 Mawrth 2013</u>
	Unedau	£	£
Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill	5,794,953	10,292,996	4,736,262
Prisiau prynu	386,452	684,202	4,584,951
Gwerthwyd	-	-	-
Newid yn y gwerth ar y farchnad		206,130	1,050,497
Treuliau Rheolwyr Buddsoddi		(63,822)	(53,229)
Brocer a threuliau eraill		<u>(20,175)</u>	<u>(25,485)</u>
Newid yn y gwerth ar y farchnad		122,133	971,783
Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth	6,181,405	11,099,331	10,292,996
Costau ar 31 Mawrth		9,178,411	8,494,208

Dangosir dosraniad asedau yn Adroddiad Buddsoddi y Rheolwyr Cronfa ar dudalen 9. Ni ellir pennu'r incwm buddsoddi ar gyfer cronfeydd sylfaenol Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan nad oes dosbarthiadau o'r gronfa, gyda'r holl incwm ac unrhyw adenillion treth yn cael eu cyfuno a thrwy hynny gynyddu gwerth yr unedau.

Y ffioedd rheoli yw 0.45% y flwyddyn ar gyfer y Gronfa Bensiwn Reoledig, 0.65% ar gyfer y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol a 0.25% ar gyfer y Gronfa Bensiwn Fynegrifol. Cyfanswm y treuliau, gan gynnwys costau masnachu uniongyrchol yw 0.52% ar gyfer y Gronfa Bensiwn Reoledig, 0.84% ar gyfer y Gronfa Bensiwn Twf

Amrywiol ac 0.26% ar gyfer y gronfa Bensiwn Fyngrifol a chânt eu tynnu o werth y cronfeydd a'u hadlewyrchu ym mhris uned y cronfeydd.

9. Asedau presennol

	<u>31 Mawrth 2014</u>	<u>31 Mawrth 2013</u>
	<u>£</u>	<u>£</u>
Cyfrif cadw'r Trysorlys ar 1 Ebrill	385,080	389,824
Ychwanegu'r llog ar gyfer y flwyddyn	822	752
	<hr/> 385,902	<hr/> 390,576
(Alldyniadau)/adneuon	(35,410)	(5,465)
Symudiadau mewn llog cronedig	17	(31)
Cyfanswm Cyfrif Cadw'r Trysorlys	<hr/> 350,509	<hr/> 385,080
Arian parod yn y banc	15,756	18,682
Cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cyflogwr	117,190	115,025
Dyledwyr eraill a rhagdaliadau	389	432
	<hr/> 483,844	<hr/> 519,219

Mae cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cyflogwr yn cyfeirio at fis Mawrth 2014 ac fe'u talwyd yn llawn i'r cynllun cyn y terfyn amser statudol o 19 Ebrill 2014.

10. Rhwymedigaethau presennol

	<u>31 Mawrth 2014</u>	<u>31 Mawrth 2013</u>
	<u>£</u>	<u>£</u>
Credydwyr: symiau'n daladwy cyn pen Blwyddyn	(26,763)	(21,450)
	<hr/> (26,763)	<hr/> (21,450)

Mae 'credydwyr: symiau'n daladwy cyn pen blwyddyn' yn cynrychioli dyledion am waith a wnaed lle na dderbyniwyd yr anfonebau erbyn diwedd y flwyddyn a rhwymedigaethau dyledus sydd heb eu talu.

11. Costau gweinyddu

	<u>31 Mawrth 2014</u>	<u>31 Mawrth 2013</u>
	<u>£</u>	<u>£</u>
Hyfforddiant	-	6,157
Costau gweinyddu eraill	3,580	4,361
	<hr/> 3,580	<hr/> 10,518

12. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Yn ystod cyfnod y cyfrif mae'r Cynllun wedi cael trafodion perthnasol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a ystyrir yn barti cysylltiedig.

Datgelir y trafodion hyn yn Nodyn 4 i'r cyfrifon hyn.

Nid oes yr un o'r Ymddiriedolwyr, Rheolwyr y Cynllun, staff rheoli allweddol neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â'r Cynllun yn ystod y flwyddyn.

Datganiad Cydymffurfio

Diben y datganiad cydymffurfio hwn yw nodi'r wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Beth yw Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu buddiannau i Aelodau'r Cynulliad ac i Ddeiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o'r Cynulliad yn aelodau o'r Cynllun o'r dyddiad y maent yn ymuno â'r Cynulliad, oni bai eu bod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

Dyma brif fuddiannau'r cynllun:

- pensiwn o un rhan o ddeugain neu un rhan o bum deg o gyflog terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth erbyn ymddeol yn 65 oed;
- pensiwn cynnar i aelodau a ymunodd cyn 6 Ebrill 2006, sy'n daladwy pan fyddant yn ymddeol cyn y byddant yn 65 oed, os yw'r aelod wedi cyrraedd 50 oed (gellir lleihau'r pensiwn yn ôl oed/hyd gwasanaeth);
- pensiwn cynnar i aelodau a ymunodd ar ôl 6 Ebrill 2006, sy'n daladwy pan fyddant yn ymddeol cyn y byddant yn 65 oed, os yw'r aelod wedi cyrraedd 55 oed (caiff y pensiwn ei leihau);
- pensiwn wrth ymddeol ar unrhyw adeg oherwydd gwaeledd;
- pensiwn gŵr gweddw/gwraig weddw/partner cyfwerth â 5/8fed o bensiwn yr aelod (yn seiliedig ar ddarpar wasanaeth os yw'n marw tra bo'n Aelod o'r Cynulliad);
- pensiwn plant (ar gyfradd o chwarter pensiwn sylfaenol neu bensiwn tebygol yr Aelod ar gyfer un plentyn neu dair rhan o wyth ar gyfer dau blentyn neu fwy);
- mae pensiynau sy'n cael eu talu yn cael eu mynegrifo i'r newidiadau yn y Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu);
- cyfandaliad marwolaeth mewn gwasanaeth cyfwerth â chyflog pedair blynedd ynghyd â darpariaeth ar gyfer mwy nag un enwebai;

Mae'r buddiannau dewisol yn cynnwys:

- prynu blynyddoedd ychwanegol;
- trosglwyddo hawliau pensiwn (i mewn ac allan o'r cynllun);

Perthynas â Chynllun Ymddeol y Wladwriaeth

- Mae'r Cynllun wedi'i gontractio allan o Gynllun Ail Bensiwn y Wladwriaeth a bydd Aelodau felly'n talu cyfradd is o gyfraniad Yswiriant Gwladol.
- Mae'r pensiwn y mae Aelodau sydd wedi ymddeol yn ei dderbyn o'r Cynllun hwn yn ychwanegol i unrhyw hawl i arian o Gynllun Ymddeol y Wladwriaeth.

Sut y Penodir Ymddiriedolwyr y Cynllun

- Mae Atodlen 1 o Reolau'r Cynllun yn nodi na fydd 'mwy' na 6 Ymddiriedolwr.
- Ar unrhyw adeg, bydd un o'r chwe Ymddiriedolwr yn bensiynwr, os oes unrhyw un yn fodlon sefyll. Lle ceir mwy nag un enwebiad, cynhelir balot i ddewis yr unigolyn â'r nifer uchaf o bleidleisiau ymhlith y pensiynwyr sy'n aelodau o'r Cynllun.
- Dim ond Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru y gellir ei benodi fel Ymddiriedolwr, ond ni fydd Ymddiriedolwr yn peidio â bod yn Ymddiriedolwr os yw'n rhoi'r gorau i fod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru benodi unrhyw Ymddiriedolwr i'r swydd neu ei ddiswyddo. Gall Ymddiriedolwr ymddiswyddo o'r swydd trwy gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyfarfodydd Ymddiriedolwyr

Fel arfer, cynhelir cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr unwaith yn ystod pob un o sesiynau'r Cynulliad, ac weithiau mae cyfarfodydd ychwanegol at ddibenion penodol. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 3 chyfarfod arferol yr Ymddiriedolwyr.

Caiff yr Ymddiriedolwyr weithredu'n ôl penderfyniad y mwyafrif sy'n bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr lle ceir cworwm, a'r cworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr fydd tri.

Penderfyniad ynghylch Anghydfod Mewnol

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gweithredu'r Penderfyniad ynghylch Anghydfod Mewnol yn unol â gofynion Deddf Pensiynau 1995. Gellir cael manylion y weithdrefn gan yr adran Gwasanaethau Ariannol.

Cynghorwyr y Cynllun a Benodwyd gan yr Ymddiriedolwyr Mewn Cysylltiad â'r Gronfa ar 31 Mawrth 2014

Actiwari	Trevor Llanwarne o Adran Actiwari'r Llywodraeth
Archwilydd	Archwilydd Cyffredinol Cymru
Bancwyr	Barclays Bank ccc
Rheolwr Buddsoddi	Baillie Gifford Life Cyfyngedig
Cynghorwr Cyfreithiol	Eversheds
Cyfrifyddion y Cynllun	Ysgrifenyddiaeth y Cynllun, Comisiwn y Cynulliad

Ni fu unrhyw newidiadau yn y penodiadau ers y cyfnod blaenorol.

Safon Cyllid

Mae'r Cynllun wedi'i eithrio rhag gofynion Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Ariannu Cynllun) 2005. Fodd bynnag, yn dilyn cyngor gan gynghorwyr proffesiynol y Cynllun, mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu mabwysiadu'r rheoliadau perthnasol fel mater o arfer da lle bo hynny'n ymarferol.

Statws Treth y Cynllun

Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn statudol o dan Adran 611A o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988, fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 12 o Ddeddf Cyllid 1999, ac mae'n gynllun cofrestredig tybiedig o dan Ddeddf Pensiynau 2004 ac yn 'gynllun cymeradwy' at ddibenion derbyn gwerthoedd trosglwyddo.

Rheolwyr Buddsoddi

Ymhlith cyfrifoldebau Baillie Gifford y mae:

- (i) cyflawni'r holl swyddogaethau o ddydd i ddydd sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa;
- (ii) dyrannu'r portffolio cytbwys rhwng categorïau buddsoddiadau a dethol stociau unigol ym mhob categori buddsoddiadau;
- (iii) penderfynu a yw'n briodol cadw neu ryddhau buddsoddiadau unigol yn y portffolio; ac
- (iv) arfer y pwerau buddsoddi mewn modd a fydd yn gweithredu'r egwyddorion yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (SIP), os yw hynny'n ymarferol, ac yn benodol, rhoi ystyriaeth i ba mor addas ac amrywiol yw'r buddsoddiadau o fewn y canllawiau a bennir gan yr Ymddiriedolwyr.

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs)

Caiff cyfraniadau blynyddoedd ychwanegol eu buddsoddi gyda'r cyfraniadau arferol yng nghronfeydd y Cynllun.

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

